**Conwy Diogelach / Safer Conwy**
**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-social Behaviour**
**Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai / Regulatory Services**
*Pennaeth Gwasanaeth/Head of Service – Peter Brown*

**Cyfeiriad Post / Postal Address:** Blwch Post 1, CONWY, LL30 9GN
PO Box 1, CONWY, LL30 9GN

***Gweithio gyda'n gilydd i wneud ein cymuned yn ddiogelach***
***Working together to make our community safer***

Preswylydd
Bae Cinmel
Conwy

Gofynnwch am / Please ask for: Emma Dowell
**01492 575113**
**saferconwy@conwy.gov.uk**
Ein Cyf / Our Ref: LUP/Chester Ave
Eich Cyf / Your Ref:
Dyddiad / Date: Ebrill 2024

Annwyl Breswylydd


**CAMERA TCC DROS DRO - Bae Cinmel**
Y lleoliad arfaethedig yw Rhodfa Caer, Bae Cinmel yn edrych tuag at Ardal Parc.

Ysgrifennwn atoch i'ch hysbysu bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried gosod camera Teledu Cylch Caeëdig Man Cyhoeddus dros dro gerllaw eich cartref fel y dangosir isod:

*Llun1; Delwedd 'Google image' o'r lleoliad arfaethedig*



Llun2; Parth preifatrwydd y camera presennol




Mae'r camerâu hyn yn cael eu hariannu gan 'Brosiect Gwell Mannau Cyhoeddus' sy'n rhan o waith ar y cyd â'r Llywodraeth i wella ardaloedd lleol. https://levellingup.campaign.gov.uk/what-is-levelling-up

Oherwydd bod eich cartref o fewn yr ardal y bwriedir gosod y camera, rydym yn rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Hoffem eich sicrhau y bydd unrhyw ffenestri sy'n uniongyrchol gyferbyn â chamera TCC yn cael eu sgrinio trwy ddefnyddio parthau preifatrwydd (sgwariau duon fel y gwelir yn yr enghraifft uchod) er mwyn ei gwneud yn amhosibl i unrhyw weithredydd ymyrryd â'ch preifatrwydd. https://www.conwy.gov.uk/hysbysiadaupreifatrwydd

Os hoffech chi roi sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Rheolwr TCC Conwy yn defnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.